

Allyriadau carbon 2021/22

Mae cyfanswm yr allyriadau wedi cynyddu 62,090 tCO₂e o'i gymharu â 2020/21.

Mae hyn oherwydd y cynnydd yn ein gwasanaethau ar ôl codi cyfyngiadau COVID-19, yn ogystal â'r cynnydd mewn gwariant wrth i ni symud ymlaen i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Ein hôl troed carbon 2021/22

Cwmpas 1


Allyriadau uniongyrchol sy'n deillio o weithrediadau a gweithgareddau y mae TrC yn berchen arnynt neu'n eu rheoli.

Cwmpas 2

Allyriadau anuniongyrchol o ynni sy'n cael ei gyflenwi drwy'r grid


Cwmpas 3

Allyriadau anuniongyrchol sy'n deillio o weithgareddau sy'n ymwneud â gweithrediadau TrC, ond sydd ddim o fewn ein rheolaeth uniongyrchol



Newidiadau yn 2021/22

- Mae'r cynnydd mewn gwasanaethau wrth i gyfyngiadau Covid-19 ddod i ben wedi arwain at gynnydd yn ein hallyriadau uniongyrchol (Cwmpas 1)
- Mae ein defnydd o drydan Cwmpas 2 wedi cynyddu 89 tCO₂e. Unwaith eto, mae'n debygol bod hyn oherwydd bod mwy o wasanaethau yn rhedeg o'n gorsafoedd
- Ni chafodd allyriadau cymudo eu cofnodi yn 2020/21, oherwydd diffyg data gweithgarwch. Fe wnaethom gynnal arolwg teithio i gael amcangyfrif o'r patrymau cymudo ar gyfer 2021/22. Roedd 178 o gydweithwyr wedi cwblhau'r arolwg, sy'n cyfateb i 25% o gyfanswm y gweithlu yn 2021/22. O'r canlyniadau, amcangyfrifwyd cyfanswm y pellteroedd cymudo ar gyfer cyfanswm nifer y staff, yn unol â methodoleg adrodd Llywodraeth Cymru = 144 tCO₂e allyriadau cymudo a 40 tCO₂e o golledion milltiroedd cymudo ymhellach fyny'r gadwyn.



Dadansoddiad o allyriadau

| Gweithgarwch allyrru | tCO ₂ e |
|--|--------------------|
| Cwmpas 1 (Allyriadau uniongyrchol) | |
| Nwy | 584 |
| Tanwydd | 84,571 |
| Cwmpas 2 (allyriadau anuniongyrchol o ynni sy'n cael ei gyflenwi drwy'r grid) | |
| Trydan | 2,736 |
| Cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol eraill) | |
| Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - nwy | 100 |
| Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - tanwydd | 19,393 |
| Gwastraff ac ailgylchu | 19 |
| Cyflenwad dŵr | 12 |
| Trin dŵr | 21 |
| Cadwyn gyflenwi | 196,879 |
| Colledion ymhellach i fyny'r gadwyn - trydan | 1,018 |
| Cynhyrchu ynni adnewyddadwy | 0 |
| Milltiroedd busnes | 25 |
| Milltiroedd busnes (colledion ymhellach i fyny'r gadwyn) | 7 |
| Cymudo | 144 |
| Milltiroedd cymudo (colledion ymhellach i fyny'r gadwyn) | 40 |
| Allyriadau defnyddio tir | |
| Allyriadau net o asedau tir TrC | -702 |
| Cyfanswm allyriadau 2020/21 | 304,846 |

Ein gwelliannau

- ✓ Mae allyriadau nwyon Cwmpas 1 wedi gostwng 23 tCO₂e o'i gymharu â 2020/21 oherwydd arbedion effeithlonrwydd ar draws ein hystâd
- ✓ Mae ein hallyriadau cyflenwad dŵr cwmpas 3 wedi gostwng 9 tCO₂e, ac mae allyriadau trin dŵr wedi haneru o'u cymharu â 2020/21
- ✓ Amcangyfrifir bod ein hystâd yn storio 702 tCO₂e. Mae hyn yn gynydd o -13 tCO₂e, sy'n deillio'n bennaf o'r ffaith bod yn ein hystâd wedi cynyddu i 176.4ha

Gwella ein prosesau

Mae allyriadau teithio busnes wedi cael eu hamcangyfrif ar sail hawliadau a gyflwynir gan staff am ad-daliad o'r treuliau a geir wrth deithio ar fusnes. Er mwyn gwella adrodd ar allyriadau teithio ar fusnes, mae angen data sylfaenol manwl am y dull teithio a'r tanwydd penodol (ee. mathau o geir a thanwydd). Nid oeddem yn gallu cael gafael ar y data ar gyfer yr adroddiad hwn.

Defnyddiwyd dull cyfrifo Haen 2 i gael amcangyfrif bras o allyriadau teithio busnes yn seiliedig ar

- car cyffredin a math anhysbys o danwydd ar gyfer cerbydau preifat a,
- £ wedi'i hawlio/km ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus.t.

Mae prosesau'n cael eu datblygu er mwyn galluogi dull fwy cadarn o adrodd ar allyriadau teithio busnes ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf.

Mae cyfanswm allyriadau cymudo gweithwyr yn amcangyfrif lefel uchel sy'n seiliedig ar y patrymau cymudo tebygol, os nad ydynt yn gweithio gartref. Yn ystod 2021/22, roedd nifer fawr o'r staff a gymerodd ran yn yr arolwg wedi gweithio gartref yn ystod gwahanol gyfnodau oherwydd cyfyngiadau COVID-19, felly mae'r bias yn y gwaith sampl yn debygol o effeithio ar y data. Casglwyd y data teithio drwy arolwg teithio staff, lle'r oedd staff yn ateb cwestiynau am eu patrymau teithio i'r gwaith yn seiliedig ar yr wythnos flaenorol. Roedd 25% o staff TrC wedi cwblhau'r arolwg ac, i amcangyfrif yr allyriadau, defnyddiwyd lluosydd i sefydlu amcangyfrif dangosol lefel uchel o'r allyriadau tebygol a gynhyrchir gan gyfanswm cymudo gweithwyr yn ystod blwyddyn waith arferol.